

Cyngor Cymuned Llandybie

Polsi Teledu Cylch Cyfyng

Polisi rheoli defnydd Teledu Cylch Cyfyng

1. Cyd-destun Cyfreithiol

Mae'r polisi hwn yn ceisio sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer canlynol:

- Y Ddeddf Diogelu Data 1998,
- Y Ddeddf Hawliau Dynol 1998,
- Côt Ymarfer Defnyddio Teledu Cylch Cyfyng y Comisiynydd Gwybodaeth 2008,
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

2. Diben y Polisi hwn

Diben y polisi hwn yw rheoli goruchwyliaeth, gweithrediad, defnydd a chyfrinachedd y systemau Teledu Cylch Cyfyng yn y lleoliad a ddynodir ar ddiwedd y ddogfen hon. Mae'n anelu at gydymffurfio â'r arfer gorau a gynhwysir yng Nghôt Ymarfer Teledu Cylch Cyfyng, y Siarter ynghylch y defnydd democrataidd o fideo wylidwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

3. Cyflwyniad

3.1 Diben y polisi hwn yw rheoli goruchwyliaeth, gweithrediad, defnydd a chyfrinachedd y system Teledu Cylch Cyfyng yn y lleoliad a ddynodir ar ddiwedd y ddogfen hon.

3.2 Bydd y polisi yn cael ei adolygu, yn flynyddol, gan y Cyngor er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i adlewyrchu budd y cyhoedd a'i fod, ynghyd â'r holl systemau, yn cwrdd â'r gofynion deddfwriaethol, yn bennaf:

- a) Y Ddeddf Diogelu Data 1998,
- b) Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)
- c) DPPEC (Rheoliadau Diogelu Data, Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019
- ch) Y Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

3.3 Mae'r Cyngor hefyd am fabwysiadu'r arfer gorau a'r protocolau y sonnir amdanynt yn y canllawiau cenedlaethol, gan gynnwys:

- a) Côt Ymarfer Teledu Cylch Cyfyng,
- b) y Siarter ynghylch y defnydd democrataidd o wylidwriaeth fideo

3.4 Mae'r polisi hwn am sicrhau bod gosodiadau Teledu Cylch Cyfyng y Cyngor:

- a) yn cael eu gosod a'u gweithredu mewn ffordd gywir ac effeithlon.

- b) Mae'r Cyngor yn derbyn egwyddorion Deddf 1998, yn seiliedig ar yr Egwyddorion Diogelu Data, fel a ganlyn:
- i. Rhaid bod y data yn cael ei brosesu'n deg a chyfreithiol; y sail gyfreithiol dros ddefnyddio'r data personol yw:-
 - a) er budd y cyhoedd, atal a chanfod troseddau, dal ac erlyn troseddwyr ac at ddibenion trafodion cyfreithiol.
 - b) Tasg Gyhoeddus – bod angen prosesu'r data fel bod y Cyngor yn gallu gweithredu tasg er budd y cyhoedd, neu ei swyddogaethau swyddogol, a bod sail clir cyfreithiol i'r dasg neu'r swyddogaeth.
 - c) Buddiannau Dilys –bod angen prosesu'r data er mwyn achub bywyd rhywun.
 - ii. yn cael ei brosesu at ddibenion cyfyngedig, ac nid mewn unrhyw ffordd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny;
 - iii. yn foddhaol, yn berthnasol ac heb fod yn ormodol;
 - iv. yn gywir;
 - v. ddim yn cael ei gadw am gyfnod hirach na'r angen;
 - vi. yn cael ei brosesu yn unol â hawliau'r unigolion;
 - vii. yn ddiogel;
 - viii. ddim yn cael ei drosglwyddo i wledydd nad ydynt yn darparu diogelwch digonol;
 - ix. yn ddarostyngedig i'r canllawiau sy'n gysylltiedig ag arfer da;
 - x. ni fydd y data yn cael ei ddefnyddio at ddiben elw neu fuddiant personol.

4. Datganiad o Ddiben

4.1 Darparu amgylchedd ddiogel er budd y rhai sy'n ymweld â, yn gweithio yn neu'n byw yng nghyffiniau'r lleoliad. Ni ddefnyddir y system i ddarfu ar breifatrwydd unrhyw unigolion, onibai bod angen gwneud hynny er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith.

4.2 Defnyddir y cynllun at y dibenion canlynol:

- a) lleihau ofn torcyfraith gan y bobl sy'n defnyddio cyfleusterau'r Cyngor fel eu bod yn gallu cael mynediad atynt a'u gadael heb ofni cael eu brawychu gan unigolion neu grwpiau;
- b) lleihau'r fandaliaeth i eiddo, ac atal, rhwystro a chanfod torcyfraith ac anhrefn;
- c) i helpu'r Heddlu, y Cyngor Cymuned ac Asiantaethau Gorfodi'r Gyfraith eraill adnabod, canfod, dal ac erlyn troseddwyr drwy archwilio a defnyddio tystiolaeth adferadwy sy'n ymwneud â thorcyfraith, y drefn gyhoeddus neu'n tramgwyddo is-ddeddfau;
- ch) rhwystro troseddwyr posibl drwy arddangos yn gyhoeddus bod Teledu Cylch Cyfyng yn gwylio'r ardal, sicrhau bod y camerau wedi'i lleoli mewn mannau amlwg ac arddangos arwyddion;
- d) helpu'r holl wasanaethau brys yn eu dyletswyddau cyfreithiol.

5. Lleoliad:

Parc Penygroes, Penygroes

6. Rheolaeth y System

- 6.1 Clerc y Cyngor fydd yn gweinyddu a rheoli'r system Cameráu Cylch Cyfyng, a hynny yn unol â'r egwyddorion ac amcanion a nodir yn y ddogfen bolisi hon.
- 6.2 Bydd pob camera yn cael ei fonitro ar y safle lle y maen nhw'n weithredol.
- 6.3 Bydd y system Cameráu Cylch Cyfyng yn weithredol 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.
- 6.4 Bydd arwyddion rhybudd, sydd eu hangen i ddiwallu gofynion Côt Ymarfer y Comisiynydd Gwybodaeth, yn cael eu gosod ar bob ochr yr adeilad a oruchwylir gan Cameráu Cylch Cyfyng y Cyngor.

7. Rheoli'r System – Gweithdrefnau Monitro

- 7.1 Caniateir mynediad at y system Deledu Cylch Cyfyng i'r Clerc, Cadeirydd y Cyngor a phobl awdurdodedig eraill, megis Swyddogion yr Heddlu, yn unig.
- 7.2 Ni roddir yr hawl i bobl anawdurdodedig wyllo unrhyw ffilm, yn fyw neu wedi'i recordio.
- 7.3 Ni ddefnyddir unrhyw ddeunydd neu wybodaeth a ganfyddir drwy'r Teledu Cylch Cyfyng at unrhyw ddiben masnachol.

8. Cadw a Gwaredu Deunydd

- 8.1 Cedwir y data am 28 diwrnod cyn ei fod yn cael ei drosgysgrifo yn awtomatig.
- 8.2 Byddwn yn gwaredu, mewn modd ddiogel, unrhyw ddyfeisiadau USB sy'n cynnwys deunydd a lawrlwythwyd o'r peiriannau recordio.
- 8.3 Bydd ffilm yn cael ei gadw ar ddyfeisiadau USB dim ond pan fydd asiantaethau allanol yn gofyn amdano, er mwyn hwyluso'r broses o ganfod troseddau ac erlyn troseddwr.
- 8.4 Er mwyn cynnal a chadw cywirdeb y data, y dyfeisiadau USB a ddefnyddir i recordio digwyddiadau o'r camerau Teledu Cylch Cyfyng a'r gallu i'w defnyddio mewn unrhyw drafodion yn y dyfodol, rhaid cadw'n gaeth at y gweithdrefnau canlynol o ran eu defnyddio a chadw dataw]:
 - a) Rhaid cadw pob dyfais USB mewn man diogel, a dim ond y Clerc ac aelodau'r Cyngor fydd â'r hawl i gael mynediad atynt.
 - b) Rhaid recordio unrhyw ddata a defnyddir at ddibenion tystiolaeth mewn parau, a rhoi yr un rhif cyfeirnod i'r ddau. Rhaid i'r Cyngor gadw'r meistr copi, a bydd modd rhoi ail gopi i'r Heddlu neu drydydd parti arall pan y derbynir ffurflen gais mynediad data wedi'i llofnodi.
 - c) Dylid llwytho gwybodaeth sydd yr union yr un fath ar y dyfeisiadau USB Meistr a Chopi.

- ch) Dylid cadw'r dyfais USB Meistr mewn bocs metal diogel. Rhoddir copi o'r dyfais USB i'r person sy'n gweud y cais o dderbyn Dynodiad positif megis Cerdyn Gwarant yr Heddlu, Cerdyn Adnabod â Llun, Trwydded Yrru ayyb.
- d) Yna dylid llenwi'r ffurflen gofnodi a derbynir llofnod am y dyfais USB Copi; bydd y Clerc yn cydlofnodi'r ffurflen.

9. Ymateb i Geisiadau Swyddogol: defnydd Teledu Cylch Cyfyng mewn achosion o ymchwilio troseddol

- 9.1 Bydd gan yr Heddlu yw hawl i wyllo lluniau Teledu Cylch Cyfyng a recordiwyd er mwyn atal a chanfod trosedd, a hawl gan swyddogion awdurdodedig ac aelodau Cyngor Cymuned Llandybie wneud hynny at ddibenion awdurdodi ac hyfforddiant.
- 9.2 Cedwir cofnod o ryddhau unrhyw ddyfais USB i'r Heddlu neu ymgeiswyr awdurdodedig eraill. Bydd cofrestr ar gael at y pwrpas hwn.
- 9.3 Rhaid i'r Heddlu gofnodi, yn ysgrifenedig, eu bod wedi gwyllo lluniau Teledu Cylch Cyfyng, a chofnodi hyn mewn llyfr log. Y Clerc fydd yn rheoli hyn. Rhaid ymateb i unrhyw geisiadau gan yr Heddlu yn unol ag Adran 29 o'r Ddeddf Diogelu Data 1998.
- 9.4 Os y byddai angen defnyddio dyfais USB fel tystiolaeth, gall copi gael ei ryddhau i'r Heddlu yn unol â'r gweithdrefnau a ddisgrifir yn y Polisi hwn. Bydd dyfeisiadau USB ond yn cael eu rhyddhau i'r Heddlu ar y ddealltwriaeth glir bod y dyfais USB yn dal yn eiddo i'r Cyngor, a bod y dyfais USB a'r wybodaeth a gynhwysir arno yn cael eu trin yn unol â'r polisi hwn.
- 9.5 Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod caniatâd i'r Heddlu drosglwyddo'r dyfais USB, a/neu unrhyw rhan o'r wybodaeth a gynhwysir arno, i unrhyw berson arall.
- 9.6 Mae'n bosibl y bydd yr Heddlu yn gofyn i'r Cyngor gadw'r dyfais/dyfeisiadau USB at ddefnydd posibl yn y dyfodol. Bydd dyfais/dyfeisiadau USB o'r fath yn cael eu mynegi a'u storio o dan reolaeth y Clerc tan fod eu hangen gan yr Heddlu.
- 9.7 Os bydd angen, bydd modd rhyddhau data i yswirwyr y Cyngor, fel tystiolaeth o hawliad neu gollod.

10. Cwynion

- 10.1 Dylid cyfeirio unrhyw gwynion ynghylch Teledu Cylch Cyfyng y Cyngor Cymuned at Clerc y Cyngor, a bydd y mater yn cael ei archwilio yn unol â pholisi cwynion y Cyngor.

11. Mynediad gan Wrthrych y Data

- 11.1 Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi'r hawl i Wrthrychau Data (yr unigolion y mae'r "data personol" yn berthnasol iddynt) ofyn am fynediad at yr holl ddata a gedwir amdanynt, gan gynnwys data a gesglir gan Deledu Cylch Cyfyng. Bydd y Clerc yn ystyried unrhyw gais o'r fath.
- 11.2 Dylid cyfeirio unrhyw geisiadau am wybodaeth, gan gynnwys Ceisiadau Mynediad Gwrthrych Data, at:

Clerc y Cyngor
Cyngor Cymuned Llandybie
d/o 4 Llys y Dderwen Fenhinol
Llandybie
SA18 2JY

- 11.3 Mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn codi ffi o hyd at £10 am ddarparu'r wybodaeth. Rhaid i'r ymgeisydd rhoi manylion sy'n caniatáu iddynt gael eu hadnabod fel gwrthrych yr wybodaeth h.y. y dyddiad, yr amser a'r lleoliad.

Cytunwyd yr uchod gan y Pwyllgor Polisi ar Chwefror 1^{af} 2022, a'i gadarnhau gan y Cyngor Llawn ar Chwefror 23^{ain}, 2022.

Cadeirydd:.....

Clerc:.....